Cytundeb Cartref – Ysgol Gorslas dychwelyd i'r ysgol yn raddol (COVID-19)

Mae'r Cytundeb Cartref-Ysgol hwn wedi'i ddrafftio i gyfathrebu'n glir y disgwyliadau sy'n ymwneud â disgyblion, rhieni / gofalwyr a'r ysgol wrth ddychwelyd i'r ysgol yn raddol yn ystod pandemig COVID-19. Mae'n hanfodol bod yr holl randdeiliaid yn gwybod beth a ddisgwylir i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles pawb dan sylw ac i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd dysgu i'n disgyblion.

Gweler y tudalennau ‘cwestiynau cyffredin' ar wefan Sir Gaerfyrddin a allai eich cefnogi ymhellach gyda'ch ymholiadau:

www.sirgar.llyw.cymru/addysg.

YR YSGOL

Mae'r ysgol yn ymrwymo i:

- **Darparu amgylchedd diogel a chroesawgar**, sydd wedi cael **asesiad risg** mewn ymateb i'r firws covid-19;
- **Creu grwpiau dosbarth bach neu 'swigod'** ar gyfer sesiynau '**ailgydio, dal i fyny a pharatoi '**, a fydd yn canolbwyntio ar les disgyblion a strategaethau i wella cyfleoedd dysgu yn y dyfodol;
- **Dilyn polisi asesu risg Cyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru**: https://llyw.cymru/diolgeu-addysg-canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-covid-19
- **Lliniaru a lleihau cymaint o risgiau** ag y bo modd yn ein hysgol;
- **Ymbellhau cymdeithasol -** byddwn yn gwneud ein gorau glas i lynu at **reolau ymbellhau cymdeithasol yn yr ysgol ac o'i hamgylch;**
- **Dynodi mannau gollwng a chasglu** ar gyfer dechrau a diwedd y dydd;
- **Darwahanu amseroedd** cyrraedd a gadael ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn ac amseroedd egwyl;
- **Golchi dwylo** - bydd yn ofynnol i ddisgyblion a staff olchi / diheintio eu dwylo yn drylwyr ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Bydd golchi dwylo'n gywir yn cael ei fodelu a'i oruchwylio gan staff, mewn modd sy'n briodol i oed y disgyblion. Yn ogystal, bydd gorsafoedd diheintio dwylo pwrpasol yn cael ar gael o gwmpas yr ysgol.
- **Glynu wrth drefniadau capasiti ysgolion -** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai **mwy na thraean** o gyfanswm y disgyblion fod ar safle'r ysgol ar unrhyw adeg. Gall y grwpiau newid, wrth i'r canllawiau newid;
- **Gorsafoedd gwaith**: Bydd gan bob plentyn ei ddesg ei hun a chadair a bydd angen gweithio gymaint ag sy'n bosibl o fewn y gofod hwn. Bydd pob plentyn yn cael pecyn o adnoddau personol gan yr ysgol i'w ddefnyddio. Peidiwch ag **anfon eitemau diangen** o'ch cartref.
- **Glanhau:** Bydd y cyfundrefnau glanhau yn drylwyr, gydag arwynebau, dolenni drysau, toiledau ac ati yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Bydd glanhawr ar y safle trwy gydol y dydd.
- **Darpariaeth hwb:** bydd ein hysgol yn parhau i gefnogi disgyblion sy'n defnyddio darpariaeth gofal plant hwb ar hyn o bryd. Fodd bynnag, sylwch y dylai rhieni barhau i wneud pob ymdrech i ofalu am blant yn y cartref ar yr adeg hon. Os oes angen lle yn yr hwb, archebwch ymlaen llaw fel y cynghorir. Bydd system flaenoriaeth ar waith.
- **Gwisg ysgol**: Nid yw'r ysgol yn disgwyl i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol. Mae canllawiau'n awgrymu y dylai disgyblion wisgo dillad sy'n addas ar gyfer amgylchedd yr ysgol, yn gyfforddus ac yn hawdd i'w golchi. Yn ddelfrydol, dylid golchi dillad a wisgir i'r ysgol wrth ddychwelyd adref.
- **Bwyd a diod**: Mae cegin yr ysgol ar gau ar hyn o bryd, felly **ni fyddwn yn gallu darparu** cinio yn y ffordd arferol. Bydd angen i bob disgybl ddod â'i becyn cinio, ei fyrbrydau a'i ddiod ei hun i'r ysgol. Bydd cyfleusterau ar gyfer llenwi poteli dŵr.
- **Presenoldeb**: Os yw rhieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol, bydd y penderfyniad hwn yn cael ei barchu. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na chaiff unrhyw ddirwyon eu rhoi ar hyn o bryd. Bydd dysgu o bell yn parhau ar gyfer pob disgybl ac mae'n hanfodol bod disgyblion yn ymgysylltu â hyn. Ni ddylai plant sy'n derbyn llythyr cysgodi fynychu'r ysgol.
- **Disgyblion symptomatig:** bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni/gofalwyr os yw plentyn yn arddangos symptomau COVID-19 a bydd disgwyl i rieni gasglu plant o'r ysgol ar unwaith;
- **Ystafell ynysu:** Os fydd disgybl yn dangos symptomau COVID-19 yn yr ysgol, bydd ystafell ynysu yn cael ei darparu ar ei gyfer.
- **PPE:** nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i staff na disgyblion wisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) ar yr adeg hon, ac eithrio mewn achosion lle mae ymbellhau cymdeithasol yn cael ei beryglu, e.e. cymorth cyntaf, cymorth gyda'r toiled, ac ati. Caiff PPE ei ddefnyddio yn yr achosion hyn neu yn unol â chynllun gofal y disgybl dan sylw.
- **Darparu profiadau allweddol**: Byddwn yn canolbwyntio ar les pob disgybl. Bydd disgyblion yn gallu cysylltu â'u ffrindiau a rhannu profiadau, gan dreulio amser yn y 'swigen' dosbarth a thu allan ar dir yr ysgol. Bydd cyfle i'r athro dosbarth, neu oedolyn cyfarwydd, **ddatrys unrhyw broblemau allweddol** sy'n codi gyda dysgu'r plentyn, er mwyn gwneud y gorau neu wella'r trefniadau dysgu yn y dyfodol. Bydd yn gyfle pwysig i bawb ddod yn gyfarwydd â'n ffyrdd newydd o weithio. Gweler canllawiau Llywodraeth
-
- Cymru am fwy o fanylion: https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-dros-dymor-yr-haf-diogelu-addysg

RHIENI / GOFALWYR

Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr barchu a chadw at y canllawiau a bennir gan Lywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a'r ysgol, er mwyn sicrhau bod staff, disgyblion a'u cymunedau yn aros mor ddiogel â phosibl.

Mae'n ofynnol i deuluoedd ystyried asesiad risg unigol bob dydd. Peidiwch ag anfon unrhyw blant i'r ysgol sy'n:

- Teimlo'n sâl;
- Dangos unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu os maen nhw wedi profi'n bositif i COVID-19 yn ystod yr 14 diwrnod diwethaf;
- Byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19, neu sydd wedi profi'n bositif i COVID-19, yn ystod y 14 diwrnod diwethaf;

Dylai rhieni/gofalwyr **gytuno i'r canlynol:**

- Byddaf yn cefnogi staff ysgolion yn eu hymdrechion i greu amgylchedd diogel yn ystod yr argyfwng hwn drwy ddilyn canllawiau'r ysgol a'r Llywodraeth i leihau unrhyw risg bosibl;
- Byddaf yn cynorthwyo fy mhlentyn gyda'i ddysgu gartref, yn unol â disgwyliadau'r ysgol;
- Os bydd fy mhlentyn yn dangos symptomau COVID-19 yn yr ysgol, byddaf yn casglu fy mhlentyn o'r ysgol ar unwaith ac yn trefnu i'w brofi **ar unwaith;**
- Byddaf yn rhoi gwybod i'r ysgol am ganlyniadau'r profion, cyn gynted ag y bo modd;
- Yn yr achos hwn, neu os oes unrhyw un yn fy nheulu'n dangos symptomau COVID-19, byddwn yn hunanynysu am 14 diwrnod fel teulu;
- Wrth ollwng a chasglu fy mhlentyn, byddaf yn glynu at yr amser a neilltuwyd a rheolau ymbellhau cymdeithasol o 2 fetr. Byddaf yn aros yn y mannau gollwng/casglu dynodedig;
- Ni fydd fy mhlentyn yn dod ag unrhyw eitemau i'r ysgol, ac eithrio bocs bwyd, diod ac eitemau hanfodol;
- Byddaf yn atgoffa fy mhlentyn am reolau ymbellhau cymdeithasol ac yn annog yr arfer hwn cyn belled ag sy'n bosibl, yn ôl ei oedran a'i allu;
- Bydd fy mhlentyn yn golchi ei ddwylo cyn dod i'r ysgol a bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i ddarparu dillad glân bob dydd;
- Byddaf yn darparu cinio, byrbrydau a diodydd bob dydd;
- Ni fyddaf yn anfon fy mhlentyn i'r ysgol gydag unrhyw eitemau diangen;
- Ni fyddaf yn mynd i mewn i adeilad yr ysgol heb wahoddiad. Os bydd angen i mi siarad ag athro fy mhlentyn, byddaf yn ffonio, e-bostio neu'n gadael neges gyda'r aelod o staff ar y pwynt gollwng/casglu;

- Os ystyrir bod ymddygiad fy mhlentyn yn anniogel / ddim yn dilyn y rheolau, byddaf yn ei gasglu cyn gynted â phosibl. Rwy'n cytuno y bydd ef / hi yn gwneud dysgu yn y cartref â chymorth, hyd nes y cytunir y gall ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel.
-

DISGYBL

Gwnaf fy ngorau i:

- Ofalu amdanaf fy hun ac eraill;
- Ymgysylltu â fy mhrofiadau dysgu yn y cartref a'r ysgol, yn unol â disgwyliadau'r ysgol;
- Ddweud wrth oedolyn os byddaf yn teimlo'n sâl;
- Ddilyn y rheolau ymbellhau cymdeithasol yn y dosbarth, o gwmpas yr ysgol ac yn yr awyr agored;
- Beidio â dod â phethau diangen o gartref i'r ysgol;
- Ddefnyddio'r offer a ddarperir i mi gan yr ysgol yn unig a chadw eiddo'n ofalus yn fy lle fy hun;
- Gadw'n ddiogel gyda'r disgyblion yn fy ngrŵp neu'r 'swigen';
- Ddefnyddio lleoliadau mewn ac allan dynodedig yr adeilad / ysgol a chadw at y systemau / arwyddion 'symud o gwmpas yr ysgol';
- Fod yn ddiogel - pesychu a thisian i hances, ei ddal - ei daflu - ei ladd, gan ddefnyddio'r bin cywir ar gyfer hancesi (neu beswch / disian i benelin, os nad oes hances ar gael);
- Ddilyn hylendid dwylo da – defnyddio sebon a dŵr am 20 eiliad gan ddefnyddio'r dechneg gywir / defnyddio diheintydd llaw;
- Ymddwyn yn dda bob amser i gynnal diogelwch fy hun ac eraill;
- Ddilyn y disgwyliadau hyn hyd eithaf fy ngallu;
- Ddeall y gallai cyfleoedd 'dod i'r ysgol' gael eu cyfyngu os nad ydw i'n ymddwyn yn ddiogel yn amgylchedd yr ysgol;
- Roi gwybod i bobl eraill sut dwi'n teimlo;
- Wrando'n ofalus a dilyn y cyfarwyddiadau;
- Siarad a symud yn bwyllog o gwmpas yr ysgol;
- Fod yn garedig, yn gyfeillgar ac yn barchus tuag eraill.

Llofnod Rhiant / Gwarcheidwad: …… Dyddiad:……..

Llofnod Disgybl: …….. Dyddiad: ……..

Llofnod Pennaeth: …… Dyddiad: ……..